PWYLLGOR CRAFFU ADOLYGU POLISI A CHRAFFU PERFFORMIAD

DYDD MERCHER, 3 HYDREF 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Walker(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Bowen-Thomson, Boyle, Cunnah, Hudson, Lister, Mackie a/ac Murphy |

24 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Dim

25 : DATGAN BUDDIANNAU

Roedd gan yr Aelodau gyfrifoldeb dan Erthygl 16 Cod Ymddygiad yr Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant ac i gwblhau ffurflenni Buddiant Personol ar ddechrau'r eitem agenda dan sylw.

26 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 12 Medi 2018 yn gofnod cywir.

27 : ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL 2017-18 – SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Croesawodd y Cadeirydd y canlynol:
Yn cynrychioli Swyddfa Archwilio Cymru

- Sara-Jane Byrne
- Ian Phillips
- Samantha Clements

Yn cynrychioli Cyngor Caerdydd

- Y Cynghorydd Chris Weaver, yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad
- Paul Orders, y Prif Weithredwr
- Christine Salter, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau
- Joseph Reay, Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau

Eglurodd y Cadeirydd fod hyn yn gyfle i ystyried yr Adroddiad Gwella Blynyddol ar gyfer 2017-18. Roedd hwn yn adroddiad blynyddol a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ym mis Medi 2018 yn dilyn archwilio cynlluniau gwella a threfniadau adrodd y Cyngor, er mwyn asesu a fyddai'r Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau gwella statudol.

Gwahoddodd y Cadeirydd Sara-Jane Byrne o Swyddfa Archwilio Cymru i roi diweddariad ar lafar.

Cafodd y Pwyllgor wybod bod gwelliant yn amlwg, a bod yr Archwiliwr Cyffredinol yn credu bod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â gofynion y Mesur Llywodraeth Leol.

Eglurodd y Prif Weithredwr bod Uwch Dîm Rheoli'r Cyngor wedi gweithio'n agos â Swyddfa Archwilio Cymru, yn cyfrannu at astudiaethau cenedlaethol, gan ddatblygu ethos a diwylliant yn y sefydliad i wella a gweithredu'n bositif er mwyn mynd ar ôl a chefnogi materion presennol.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i ofyn cwestiynau.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at gynnwys yr adroddiad a gofyn pam fod Adroddiad Arolygiaeth Gofal Iechyd ar y Cyd a Gofal heb ei gynnwys yn yr adroddiad.

Cafodd y Pwyllgor wybod y byddai'r Adroddiad Arolygiaeth Gofal Iechyd ar y Cyd yn cael ei rannu maes o law. Yn anffodus, doedd dim digon o amser i'w gynnwys ar agenda heddiw.

Cafodd Aelodau'r Pwyllgor wybod mai'r Ffi Blynyddol ar gyfer gwaith Swyddfa Archwilio Cymru oedd £471,097 er mwyn i'r Cyngor gyflawni ei ofynion statudol.

Amlinellodd Swyddfa Archwilio Cymru sut gwnaethon nhw asesu Cynllun Gwella'r Cyngor a dadansoddi perfformiad. Cyfrifoldeb y Cyngor oedd hunan-asesu ei berfformiad yn erbyn dangosyddion a bod â threfn gadarn ar waith i gefnogi hyn cyn cyhoeddi. Roedd dulliau ar waith i ddadansoddi'r cynnwys, yn enwedig y Cynllun Llesiant wrth symud ymlaen a sut roedd y Cynllun yn gysylltiedig ag amcanion y Cynllun Corfforaethol, a sut roedd y Cyngor yn cydymffurfio â'r Mesur Llywodraeth Leol.

Gwnaeth y Pwyllgor dynnu sylw at argymhellion yn yr adroddiad a sut gallai'r rhain gael eu deall yn well er mwyn llywio'r gwaith craffu.

Cafodd Aelodau'r Pwyllgor wybod bod SAC yn ymgymryd â gwaith dilyn i fyny ar argymhellion i asesu sut mae'r Cyngor wedi bwrw ymlaen â'r argymhellion blaenorol. Caiff y gwaith hwn ei dracio a'i ystyried gan Bwyllgor Archwilio'r Cyngor. Roedd gwaith dwys ar waith i dracio gweithgareddau a chefnogi rheoli perfformiad, mewn perthynas â dyheadau Uchelgais Prifddinas.

Roedd y Pwyllgor yn bryderus y dylai'r wybodaeth yn yr argymhellion gael ei thrafod mewn pwyllgorau craffu.

Cafodd yr Aelodau sicrwydd bod dulliau adrodd ar waith i rannu gwybodaeth o'r Pwyllgor Archwilio i Bwyllgorau Craffu. Roedd archwilwyr allanol SAC yn bresennol yn aml yn y Pwyllgor Archwilio ac roedd tracwyr ar waith.

Cafodd y Pwyllgor wybodaeth ar sut roedd Cynghorau'n ymdrin â galw digartrefedd, sut roedd dulliau adrodd yn bwydo i mewn i'r broses graffu, ac yn gweithredu argymhellion.

Cafodd y Pwyllgor wybod bod Estyn, CCIW a Chomisiynydd y Gymraeg yn enghreifftiau o'r sefydliadau allanol oedd yn craffu'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Pwyllgor fod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau.

28 : ADOLYGIAD TROSOLWG A CHRAFFU – ADDAS I'R DIBEN?

Yn cynrychioli Swyddfa Archwilio Cymru

- Sara-Jane Byrne
- Ian Phillips
- Samantha Clements

Yn cynrychioli Cyngor Caerdydd

- Y Cynghorydd Huw Thomas, Arweinydd Cyngor Caerdydd
- Y Cynghorydd Chris Weaver, yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad
- Paul Orders, y Prif Weithredwr
- Christine Salter, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau
- Joseph Reay, Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau
- Gary Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

Croesawodd y Pwyllgor hefyd y Cynghorydd Patel – Cadeirydd, Pwyllgor Craffu Amgylcheddol a'r Cynghorydd McGarry, Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion.

Er mwyn gosod y cyd-destun ar gyfer yr eitem hon, eglurodd y Cadeirydd bod SAC yn cynnal nifer o archwiliadau cenedlaethol wrth gyflawni ei raglen waith. Cynhaliwyd yr adolygiad Addas at y Dyfodol rhwng Hydref 2017 a Ionawr 2018. Gwyliodd gynrychiolwyr o Swyddfa Archwilio Cymru y Pwyllgor ar waith ym mis Tachwedd 2017 wrth i'r Pwyllgor graffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus; rhoddwyd dogfennau'r cyfarfod i aelodau i gefnogi eu rôl craffu, a chafodd adroddiadau a chyflwyniadau eu hadolygu; cafodd swyddogion eu cyfweld; a gwnaeth rai gymryd rhan mewn grwpiau ffocws a gynhaliwyd gyda phrif grwpiau o Aelodau a swyddogion. Ym mis Gorffennaf 2018, cyhoeddodd SAC ganlyniadau ei adolygiad ac roedd hyn yn gyfle i'r Pwyllgor glywed a canlyniad a sut roedd y Cyngor yn bwriadu bwrw ymlaen â chynigion gwella i'r dyfodol.

Eglurodd Huw Thomas, Arweinydd y Cyngor bod gan Gyngor Caerdydd swyddogaeth graffu cryf a'i fod yn cynnig mewnbwn gwerthfawr o ran y broses gwneud penderfyniad.

Eglurodd Swyddfa Archwilio Cymru bod gwaith wedi'i wneud gyda'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru i bennu sut roedd y Cyngor wedi gweithredu a datblygu eu swyddogaethau craffu ers ei gyflwyniad gyda Deddf Llywodraeth Leol 2000, ynghyd â'r newidiadau oedd wedi'u cynnal. Yr heriau oedd yr oedd cynghorau'n eu hwynebu a'r materion i'r dyfodol fyddai'r cynghorau'n gorfod eu hwynebu. Roedd gan Gaerdydd lwyfan dda i'r dyfodol, ac roedd mewn sefyllfa i adeiladu a chryfhau i fodloni heriau i'r dyfodol. Roedd gan y Cyngor Gynllun Gweithredu ac roedd cynigion gwella wedi'u rhestru yn yr adroddiad.

Datblygwyd y trefniadau Cabinet a Chraffu, a gwnaeth aelodau craffu gyflwyno heriau cadarn. Roedd trefniadau hyfforddiant yn cael eu hadolygu, i ddatblygu sgiliau aelodau'n unol â gweithdrefnau newydd gan gynnwys Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol ac hefyd i ddatblygu sgiliau a dealltwriaeth aelodau am yr

heriau a ddaw. Nododd y Pwyllgor hefyd bod cynigion i dorri adnoddau, ac felly roedd yn hanfodol i ddefnyddio'r adnodd bresennol i gefnogi'r gwasanaeth i'r dyfodol.

Rhoddodd Swyddfa Archwilio Cymru grynodeb fanylach o’r canlyniadau, gan dynnu sylw at y ffordd yr oedd pwyllgorau craffu’n cael eu rhedeg a’r cymorth oedd ar gael i Aelodau. . Roedd sgôp i wella Blaenraglenni Gwaith ac er bod ychydig o ymgysylltu cyhoeddus yn cael ei gydnabod, roedd angen gwneud mwy. Trafodwyd proffil craffu ar wefan y Cyngor, a chydnabuwyd bod mynd drwy’r wefan i ddod o hyd i raglenni gwaith craffu'n gallu bod yn anodd ar adegau. Cydnabuwyd ymdrechion i ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghyd â gwaith Grŵp Tasg a Gorffen da. Fodd bynnag, roedd hi'n bosibl i fireinio blaenoriaethu agenda. Ystyriwyd craffu'n effeithiol ond roedd y Cyngor yn cael ei herio i fanteisio ar effaith ei waith ac i ystyried sut all materion gael eu craffu drwy ddefnyddio dulliau amgen ar wahân i gyfarfodydd ffurfiol.

Tynnodd y Pwyllgor sylw’r Cabinet at yr argymhellion Tasg a Gorffen craffu. Roedd mwyafrif yr argymhellion wedi’u gweithredu, fodd bynnag, ystyriodd yr Aelodau nad oedd llawer o ddiweddariad ar eu cynnydd neu statws.

Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad gan Gary Jones, Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a amlinellodd y Cynllun Gweithredu a ddatblygwyd i fynd ar ôl y Cynigion Gwella SAC canlynol.

P1 – Dylai’r Cyngor adeiladu ar ei brofiad o ddefnyddio ffyrdd gwahanol o weithio i ystyried dulliau mwy arloesol o ymgymryd â gweithgarwch craffu.

P2 – Dylai’r Cyngor ystyried y sgiliau a’r hyfforddiant y gallai aelodau craffu fod eu hangen i'w paratoi nhw'n well at heriau presennol ac heriau i'r dyfodol a chan gyflawni rhaglen hyfforddiant priodol, gan gynnwys cynnig hyfforddiant ychwanegol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

P3 – Dylai’r Cyngor wneud blaenraglenni gwaith pwyllgorau craffu’n fwy hygyrch i’r cyhoedd ac ystyried sut gallai gynnwys y cyhoedd yn ei weithgarwch craffu’n fwy effeithiol.

P4 – Dylai’r Cyngor gyhoeddi fersiynau terfynol o gofnodion pwyllgorau craffu ar ei wefan mewn modd amserol.

P5 – Dylai’r Cyngor adolygu'r math o gymorth craffu oedd ei angen i alluogi i'r swyddogaeth graffu i ymateb i heriau presennol a heriau i'r dyfodol.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i ofyn cwestiynau.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at ddulliau amgen o weithio gan ofyn i SAC i roi cyngor ar ba ddulliau arloesol allai gael eu defnyddio.

Cyfeiriodd SAC at Gynghorau eraill megis Swydd Lincoln, at y Ganolfan Graffu Cyhoeddus a'r rhwydwaith graffu newydd, gan awgrymu y dylai'r dulliau roi'r defnyddiwr gwasanaeth wrdd wraidd y gwaith.

Roedd Aelodau’r Pwyllgor o’r farn y gallai’r Cynlluniau Gwaith fod â mwy o sail, gan nodi pa mor anodd yr oedd yn gallu bod i ymgysylltu ag aelodau’r cyhoedd o ran rhai o'r eitemau agenda Adolygu Polisi a Pherfformiad (PRAP). Mewn perthynas â'r

cofnodion, holodd yr Aelodau a oedd ffordd rhwyddach o'u cyhoeddi, gan gynnwys gwe-ddarlledu bob cyfarfod.

Cafodd y Pwyllgor wybod bod rhai cyfarfodydd yn cael eu gwe-ddarlledu ar hyn o bryd, roedd hyn hefyd yn cynnwys dolenni at Facebook byw. Roedd gwe-ddarlledu’n costio, fodd bynnag roedd rhai cynghorau wedi defnyddio cofnodion sain ac roedd y cofnodion sain hyn ar gael ar eu gwefannau.

Nododd y Cynghorydd Patel, Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol bod pob Cadeirydd Craffu yn gweithredu’n wahanol. Nododd bod ei Bwyllgor ef yn ystyried blaengyfarfodydd yn ddefnyddiol iawn gan alluogi'r Pwyllgor i ganolbwyntio ar yr eitemau agenda dan sylw. Ystyriodd nad oedd ychydig o wasanaethau hyfforddi mewnol yn ddigonol i gefnogi anghenion y Cadeiryddion Craffu ac Aelodau Pwyllgorau Craffu. Roedd hyfforddiant allanol da wedi’i dderbyn oedd yn rhoi datblygiad fanylach i aelodau. Ystyriodd bod angen i we-ddarlledu pob pwyllgor craffu a’i fod yn hanfodol i lobio Llywodraeth Cymru am gyllid i gefnogi datblygiad ymgysylltiad cyhoeddus drwy we-ddarlledu.

Eglurodd y Cynghorydd Huw Thomas ei fod yn hanfodol i’r Pwyllgorau Craffu ymgysylltu â’r cyhoedd a chodi ymwybyddiaeth cyhoeddus. Dylai gwe-ddarlledu gefnogi’r ymgysylltiad hwn ond dylid rhoi cyllid ar waith cyn bwrw ymlaen.

Eglurodd y Cynghorydd Patel bod Fforwm Cyswllt Cadeiryddion Craffu wedi awgrymu ysgrifennu at Lywodraeth Cymru er mwyn ariannu gwe-ddarlledu.

Roedd Aelodau’r Pwyllgor yn bryderus am nifer y statws RAG coch yn y cynllun gweithredu gan ofyn beth oedd yn cael ei wneud i leddfu hyn. A oedd blaenoriaethu eitemau craffu yn foddhaol, ac a oedd perfformiad craffu’n cael ei brofi.

Cafodd y pwyllgor wybod bod y cynllun gweithredu’n ddogfen fyw ac y byddai’r statws RAG yn cael ei ddiweddaru wrth i’r camau fynd yn eu blaenau.

Eglurodd Swyddfa Archwilio Cymru bod pob Cyngor yn blaenoriaethu ei lwyth gwaith ei hun. Dylai craffu fod mewn sefyllfa i wneud gwahaniaeth drwy bennu beth allai gael ei graffu a dal y Cabinet yn gyfrifol.

Cafodd y Pwyllgor wybod y byddai’r Blaenraglenni Gwaith yn cael eu hadolygu bob tri mis. Roedd yr eitemau’n newid yn aml a byddai’r Rhaglen Waith yn llyfn i adlewyrchu hyn.

Trafododd y Pwyllgor y Gwasanaeth Ieuenctid a gwaith parhaus y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc. Roedd peilot byr yn cael ei gynnal i annog cyfranogiad mwy o bobl ifanc mewn Craffu.

Tynnodd y Cynghorydd Patel sylw at ymgysylltiad cyhoeddus gyda’r posibilrwydd o gynnal cyfarfodydd i ffwrdd o Neuadd y Sir. Roedd nifer o hybiau wedi’u lleoli ledled y ddinas a gallai Craffu elwa ar ddefnyddio’r lleoliadau allanol hyn.

Eglurodd y Cynghorydd Mary McGarry, Cadeirydd Craffu dros y Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion bod y gweithdrefnau craffu oedd ar waith ar hyn o bryd yn dda ac y dylai’r Cyngor barhau i fod â phump Pwyllgor Craffu.

Nododd Swyddfa Archwilio Cymru nad oeddent yn gallu rhoi cyngor ar yr adnoddau fyddai eu hangen i gefnogi gwasanaeth Craffu effeithiol. Yn ôl y gyfraith, roedd gofyn i'r Cyngor fod ag un pwyllgor craffu. Roedd eu hadolygiad gwella ynglŷn â gweithio arloesol ac ystyried ffyrdd amgen o gyflawni craffu i'r dyfodol.

Tynnodd Aelodau'r Pwyllgor sylw at ymrwymiadau gwaith gan fod gan rai Aelodau Pwyllgor Craffu swyddi llawn amser nad oeddent yn gallu ymrwymo i Grwpiau Tasg a Gorffen.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Pwyllgor fod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau.

29 : ADRODDIAD LLES CYNGOR CAERDYDD 2017-18

Croesawodd y Cadeirydd y canlynol:

- Y Cynghorydd Chris Weaver, yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad
- Paul Orders, y Prif Weithredwr
- Christine Salter, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau
- Joseph Reay, Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau
- Andrew Simms, Rheolwr Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol

Rhoddodd y Cadeirydd wybod o 2018 ymlaen, roedd yr Adroddiad Gwella wedi'i ail-frandio yn unol â'r Adroddiad Llesiant. Adolygodd y ddogfen statudol hon berfformiad y Cyngor dros y flwyddyn flaenorol, gan ddefnyddio tystiolaeth oedd yn dangos cyflawniad ei Amcanion Llesiant. Dylai'r Adroddiad hwn gyfathrebu gwybodaeth gwella oedd yn amserol ac yn gywir gydag Aelodau, swyddogion, dinasyddion, cymunedau, rhanddeiliaid, cynghorau eraill, Llywodraeth Cymru a rheoleiddwyr.

Eglurodd y Cynghorydd Weaver bod hyn yn adroddiad ôl-weithredol oedd yn amlinellu'r dangosyddion perfformiad.

Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad ar Adroddiad Llesiant Statudol Blynyddol Cyngor Caerdydd 2017-18 oedd yn amlinellu'r canlynol:

- Gofynion Deddfwriaethol
- Adroddiad Llesiant Statudol Blynyddol 2017-18
- Hunan-asesiad o'n Hamcanion Llesiant
- Negeseuon Allweddol
- Meysydd ar gyfer rhagor o welliant
- Adroddiad Llesiant Statudol Blynyddol – Datblygiadau i'r Dyfodol

Cafodd y Pwyllgor wybod am y gweithdrefnau deddfwriaethol newydd ar waith a dadansoddiad perfformiad blaenorol o'i gymharu â gweddill Cymru.

Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn poeni am ddilysrwydd y targedau, gan nodi bod rhai targedau ar gyfer 2017-18 yn dal i fod yn is na chyrhaeddiad 2016-17. Roeddent yn teimlo bod angen targedau anoddach i rai o'r Dangosyddion Perfformiad.

Nododd y Pwyllgor fod y targedau'n uchelgeisiol. Roedd targedau gwell ar waith i gefnogi cynnydd wrth fwrw ymlaen a sicrhau dilysrwydd.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at sgôr RAG yr adroddiad, gan gyfeirio at Ddiogelu a Thrawsffurfio, oedd wedi'i nodi'n goch a gofynnodd pam mai dyma'r sefyllfa ac a oedd y targedau a osodwyd yn afrealistig.

Cafodd y Pwyllgor wybod am y meini prawf oedd yn cael ei ddefnyddio i osod y targedau a rhoddodd sicrwydd i Aelodau y byddai modd gweld gwelliannau yn yr ardaloedd coch.

Gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor am ragor o wybodaeth ar yr ystadegau er mwyn deall y ffigyrau, yn benodol yn gysylltiedig â Phlant sy'n Derbyn Gofal a Phobl oedd eisiau byw yng Nghaerdydd.

Cyfeiriwyd y Pwyllgor at y dangosyddion perfformiad oedd ar waith ar gyfer y Gwasanaethau Plant a sut oeddent yn cael eu cofnodi. Ar hyn o bryd, roedd yr ardal mewn sefyllfa resymol er bod pwysau o ran galw. Roedd nifer uchel o swyddi gwag yn y Gwasanaethau Plant. Fodd bynnag, roedd gwelliannau sylweddol yn dechrau dod i'r amlwg a byddai rhagor o naratif ar gynnydd yn cael ei ddarparu.

Trafododd y Pwyllgor Rianta Corfforaethol a'r cymorth a roddir i Blant sy'n Derbyn Gofal. Y Dangosyddion Perfformiad Allweddol oedd ar waith i gefnogi plant oedd yn dychwelyd gartref a'r rheiny oedd yn cael eu lleoli mewn mwy nag un lleoliad.

Cafodd y Pwyllgor wybod ei bod hi'n anodd i fynd ar ôl materion unigol oedd yn effeithio ar ddiogelu drwy'r dangosyddion perfformiad.

Clywodd yr Aelodau bod pob Cyfarwyddiaeth yn ymwybodol o faterion gwydnwch ariannol ac yn mynd ar ôl blaenoriaethau hanfodol. Roedd Cynnydd ar Welliant yn dilyn Asesiad Archwilio Cymru er mwyn canolbwyntio ar a gwella perfformiad.

Roedd y Pwyllgor yn poeni nad oedd tystiolaeth yn y papurau i ddangos sut roedd y ffigyrau'n dod i'r amlwg. Ystyriodd yr aelodau y byddai mwy o naratif a chysondeb o ran hunan-asesu yn rhoi asesiad mwy cadarn.

Cafodd yr Aelodau sicrwydd bod asesiadau manwl ynghylch y cyfarwyddwr wedi'u cynnal i gyflawni'r ffigyrau. Roedd dadansoddiad sylweddol wedi bod o gynnydd anfoddhaol mewn rhai meysydd, ac roedd ymwybyddiaeth o'r angen am welliant pellach ac ymwybyddiaeth o'r targedau cynyddol, gan nad oedd perfformiad mor dda ag y gallai fod bob tro. Roedd y Prif Weithredwr yn cydnabod bod meysydd o'r sefydliad fyddai'n elwa o rhagor o ganolbwyntio ar graffu a her craffu mewnol parhaus, megis taclo lefelau absenoldebau salwch, cyflawniad y model Landlord Corfforaethol, rheoli galw yn y Gwasanaethau Plant, a'r gwasanaeth Rheoli Gwastraff.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Pwyllgor fod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau.

30 : EITEM(AU) BRYS (OS OES RHAI)

Dim

31 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 14 IONAWR 2018 AM 4.30 PM